PWYLLGOR AMDDIFFYN Y CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 12 EBRILL 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Parry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Boyle, Kelloway, Murphy a/ac Walsh |

## 39 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Manzoor Ahmed, Bridges, Goddard, Morgan a Simmons.

## 40 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 41 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2016 gan y Pwyllgor fel cofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 42 : COSTAU A FFIOEDD CERBYDAU HACNI A LLOGI PREIFAT

Cynghorwyd Aelodau fod y Pwyllgor, yn y cyfarfod ar 9 Chwefror 2016, wedi penderfynu rhoi'r hawl i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i fwrw ymlaen â'r drefn hysbysiad cyhoeddus ynghylch newidiadau arfaethedig i ffioedd a chostau Cerbydau Hacni a Llogi Preifat.

Mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r newidiadau arfaethedig. Cafodd y gwrthwynebiadau eu nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y gwrthwynebiadau hyn a phenderfynu os oedd yn dymuno bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i ffioedd a chostau. Gofynnwyd hefyd i Aelodau gytuno ar ddyddiad addas i'r ffioedd a chostau newydd ddod i rym. Nododd y Pwyllgor fod y ffioedd diwygiedig arfaethedig yn gyffredinol is.

Cynghorwyd Aelodau mai prif ffocws y gwrthwynebiadau oedd dilysrwydd y ffioedd a'r defnydd o'r pecyn cymorth ffioedd; cyfreithlondeb a chost trwyddedau cerbyd 6 mis; a'r diffyg manyldeb canfyddedig yn y cyfrifiadau. Roedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â'r holl bryderon hyn.

Gwahoddwyd Sharyn Donnaghie i annerch y Pwyllgor ar ran ei hunan, Carl Cummings, Supertax a Primeoutlet Ltd. Cododd Ms Donnaghie bryderon fod y pecyn cymorth, a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffioedd diwygiedig arfaethedig, heb gael ei ddarparu i'r fasnach. Roedd cwestiynau a gyflwynwyd fel rhan o'r cynrychiolaethau yn dal heb eu hateb a sylwodd Ms Donnaghie fod diffyg cyffredinol yn nhryloywder ac agoredrwydd swyddogion.

Ystyriai Ms Donnaghie hefyd nad oedd gan yr awdurdod hawl o dan ofynion Deddf Trafnidiaeth 1981 i godi gwahanol ffioedd am wahanol drwyddedau. Ymhellach, ystyriai Ms Donnaghie mai dim ond am 12 mis y gellir rhoi trwydded Cerbyd Hacni. Cynghorwyd Aelodau nad oedd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, partner Caerdydd yn y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, wedi cyflwyno trwyddedau cerbyd 6 mis a'u bod yn cyflwyno ffi archwiliad ar gyfer cerbydau dros 5 oed.

Codwyd pryderon hefyd fod strwythur swyddogion y tîm Trwyddedu yng Nghaerdydd yr un fath. Fodd bynnag, roedd staff wedi profi 18 mis o ailstrwythuro. Nid oedd Swyddogion Trwyddedu yn canolbwyntio ar Gaerdydd yn unig, ac felly ni allai cost y gwasanaeth fod yr un fath. Cwestiynodd Sharyn Donnaghie y ffaith iddi hi ffonio'r adran trwyddedu i siarad â Rhys Morgan, a chael gwybod ei fod yn gweithio i Fro Morgannwg y diwrnod hwnnw. Cwestiynodd Ms Donnaghie y cyfrifon ar gyfer y ffioedd pan nad oedd swyddogion trwyddedu yn gweithio'n llawn amser i Gyngor Caerdydd. Nododd Ms Donnaghie fod ganddi bryderon dybryd ynghylch ailstrwythuro'r adran. Cwestiynodd y cyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2016.

Wrth gloi, crynhodd Ms Donnaghie ei phryderon, sef:

- Nad oedd digon o fanylion wedi'u rhannu â'r fasnach
- Nad oedd yn gyfreithlon i gyflwyno trwyddedau 6 mis ar gyfer cerbydau hacni
- Nad oedd y costau ar gyfer yr Adran Trwyddedu wedi newid rhwng 2009 a 2016, er gwaethaf ailstrwythuro'r adran a'r ffaith bod swyddogion yn gweithio i'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ac nid i Gyngor Caerdydd yn unig.

Bu'r Aelodau'n trafod yr achos a gyflwynwyd a dilysrwydd y sylwadau a wnaed. Ystyriai rhai Aelodau fod cryn dipyn o fanylion wedi'u darparu i gynrychiolwyr y fasnach.

Rhoddodd swyddog fanylion pellach o ran nifer y ceisiadau cerbyd hacni/llogi preifat a dderbyniwyd yn 2014/15 a 2015/16. Gofynnwyd i aelodau nodi fod cynnydd yn y nifer o geisiadau a dderbyniwyd yn 2015/16. Cyfrannodd y cynnydd hwn at leihad diweddarach yn y ffi.

Roedd Aelodau'n chwilio am sicrwydd eu bod yn fodlon fod y ffioedd y cytunwyd arnynt yn niwtral o ran cost. Gofynnwyd i swyddogion sicrhau'r Pwyllgor fod y costau cyfanredol yn gostau gwirioneddol ac yn annhebygol o arwain at arian sylweddol dros ben. Nododd Swyddogion fod y 'pecyn cymorth' a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffioedd wedi'i ddatblygu o ganlyniad i her gyfreithiol. Câi'r pecyn cymorth ei ddefnyddio gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Cymreig ac mae wedi'i argymell hefyd gan y Sefydliad Trwyddedu. Ystyriai swyddogion mai'r pecyn cymorth oedd y dull mwyaf cadarn ac addas o gyfrifo ffioedd oedd ar gael.

Gofynnodd Aelodau pam nad oedd y pecyn cymorth ar gael i'r fasnach. Cynghorodd swyddogion fod yr holl ddata a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo ar gael, er nad oedd y daenlen pecyn cymorth ei hun ar gael. Er mai'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffioedd oedd y fwyaf cadarn erioed, efallai na fyddai'n bosibl bodloni pob aelod o'r fasnach.

Wrth ateb y pwyntiau a godwyd ynghylch dyraniad amser swyddogion o fewn y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, nododd swyddogion fod yr elfennau trwyddedu o fewn pob awdurdod yn cael eu trin ar wahân i'r gwasanaethau rheoliadol eraill.

Gofynnwyd i swyddogion gadarnhau os oedd gan yr awdurdod hawl i gyflwyno trwydded cerbyd 6 mis ar gyfer cerbydau hacni. Atebodd swyddogion fod y cyngor cyfreithiol o fewn yr adroddiad yn gywir a bod modd i'r awdurdod roi trwyddedau cerbyd 6 mis i gerbydau hacni. Nid yw Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi trwyddedau o'r fath, ond mae Bro Morgannwg yn eu rhoi. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o bolisïau trwyddedu'r tri awdurdod gyda golwg ar gysoni lle bo'n bosibl. Mae gan nifer o awdurdodau lleol eraill drwyddedau cerbyd 6 mis ar gyfer cerbydau hacni.

Argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor gymeradwyo'r ffioedd a chostau diwygiedig fel y nodwyd yn yr adroddiad. Symudodd Aelodau argymhelliad pellach i'r adroddiad oedd yn gofyn i swyddogion weithio'n agosach gyda chynrychiolwyr y fasnach.

PENDERFYNWYD – Fod y ffioedd a chostau diwygiedig wedi'u cymeradwyo, i gael eu cyflwyno ar 2 Mai 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am